JONES, OWEN WYNNE ('Glasynys'; 1828 - 1870), clerigwr, hynafiaethydd, storïwr, a bardd

Enw: Owen Wynne Jones
Ffugenw: Glasynys
Dyddiad geni: 1828
Dyddiad marw: 1870
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr, hynafiaethydd, storïwr, a bardd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: David Gwenallt Jones

Ganwyd yn Tŷn-y-ffrwd, Rhostryfan, ger Caernarfon, 4 Mawrth 1828. Aeth i weithio yn y chwarel pan oedd yn 10 oed, a'i gadael yn 17 a mynd i ysgol Bron-y-foel. Ni wyddys yn sicr a fu ef yn ysgol 'Eben Fardd' yng Nghlynnog, ond aeth i Goleg Hyfforddi Caernarfon, i baratoi bod yn athro yn ysgolion yr Eglwys. Bu'n athro ysgol yng Nghlynnog, ac 'Eben Fardd' yn gymydog iddo. Symudodd i gadw ysgol yn 1855 i Lanfachreth ym Meirionnydd, a daeth i gysylltiad ag 'Ab Ithel' yn Llanymawddwy; bu'r ddau yn trefnu eisteddfodau, a 'Glasynys' yn cystadlu ynddynt. Oddi yno aeth i Feddgelert at y Parch. William Hughes; bu, y mae'n debyg, mewn coleg yn Birmingham. Urddwyd ef yn ddiacon, 2 Rhagfyr 1860, gan esgob Bangor. Aeth yn gurad i Langristiolus ym Môn, yn 1863 symudodd i Lanfaethlu, ac yn 1866 cafodd guradiaeth ym Mhontlotyn, sir Fynwy. Byr fu ei arhosiad yma, a symudodd i Gasnewydd i gyd-olygu (gydag 'Islwyn') newyddiadur, *Y Glorian*. Aeth oddi yno i Borthmadog, ac oddi yno i Dywyn, Meirionnydd. Bu farw 4 Ebrill 1870, a chladdwyd ef ym mynwent Llandwrog. Ef oedd awdur *Fy Oriau Hamddenol, sef, Caniadau Moesol a Difyrus, Gan Gwyndaf Hen a Chaersallwg*, 1854; *Lleucu Llwyd* (ail arg. 1858); *Yr Wyddfa: sef gwaith barddonawl a rhyddieithol Glasynys. Dan Olygiad H. O(wen) Glaslyn. Rhifyn I* ... (1877?); *Dafydd Llwyd: Neu Ddyddiau Cromwell* (ail arg. 1857); *Dafydd Gruffydd, pa beth wyt ti yn ei feddwl o'r Ddwy Fil a'r dydd hwnw?* 3ydd arg. 1894). Ysgrifennodd erthyglau yn *Y Brython*, *Baner y Groes*, *Taliesin*, a llythyrau i'r *Herald Cymraeg* tan y ffugenw, 'Salmon Llwyd o ben Moel Tryfan'; cyhoeddwyd ei straeon yn *Cymru Fu* a rhai o'i lythyrau a'i draethodau yn *Y Geninen*.

Awdur

David Gwenallt Jones, (1899 - 1968)

Ffynonellau

Ceir cyfeiriadau at erthyglau at Lasynys ac ymdriniaeth a'i waith yn rhagymadrodd Saunders Lewis i *Straeon Glasynys detholiad*, 1943

Y Llenor, xiii-xiv, 1898

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Owen Wynne Jones

Delweddau

John Thomas, Owen Wynne Jones, 'Glasynys'

John Thomas, Owen Wynne Jones, 'Glasynys'

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 73364301

Wikidata: Q7114713

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jones, D. G., (1953). JONES, OWEN WYNNE ('Glasynys'; 1828 - 1870), clerigwr, hynafiaethydd, storïwr, a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 27 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-WYN-1828

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government